

YN union wedi marw ei phriod Hugh Owen Thomas, symudodd Elizabeth Thomas o'i chartref yn Stryd Nelson ac ymgartrefu yn 21 Sgwâr Sant Siôr. Yna daeth Robert Jones a'i briod i fyw i Stryd Nelson a chynnal gwaith ei ewythr.

Yn 1881 cawsai ei apwyntio yn Llawfeddyg Cynorthwyol Anrhydeddus yn Ysbyty Stanley, ond yn 1885 dewisodd sefydlu ei feddygfa ei hun yn 22 Sgwâr Sant Siôr Fawr. Bu ei brofiad cynharach ym myd anafiadau dynion caib a rhaw yn fantais fawr iddo, a thros flynyddoedd adeiladu Camlas Llongau Manceinion (1887–1893), yr oedd wedi gweithredu fel llawfeddyg ymgynghorol. Yn ystod y chwechawd hwnnw, cofnodwyd fod tair mil o ddamweiniau wedi digwydd, ac yr oedd asesu'r gost yn nhermau bywydau dynol yn dangos yn eglur beth oedd yn oblygedig mewn cynnydd.

Defnyddio pelydryn X am y tro cyntaf

Bwridd Robert Jones ei hun i batrwm gwaith ei ewythr. Ei amserlen arferol am flynyddoedd oedd: brecwast am 7.30 o'r gloch, ac wedi hynny chwech ar hugain o lawdriniaethau rhwng amser cinio a naw o'r gloch yr hwyr. Yn ychwanegol, gwelai ryw saith mil o gleifion y flwyddyn yn ei glinig rhad a gynhelid yn ei dŷ bob bore Sul, yn nhraddodiad ei ewythr. Daeth â llu o gyfiuwidiadau meddygol i mewn i Nelson Street, ac adwaenid ef fel arloeswr y Pelydr X. Dyma'i gofnod:

'Cymerwyd Pelydryn X cyntaf y wlad 'rwy'n meddwl gan Dr Thurston Holland (cynorthwywr Robert Jones) a minnau â thirwb fechan, a llwyddasom i ddatblygu llun o ffwled oedd wedi treiddio i mewn i arddwrn bachgen.'

Mae'n ddiddorol iawn, hefyd, fod yr Arglwydd Lister, pan ddaeth i lawr i Lerpwl yn 1896 i draddodi ei araith fel Llywydd y Gymdeithas Brydeinig, wedi cyfeirio at y Pelydryn X cyntaf hwnnw.

Yr oedd yn ddyon hynod egniol, yn fabolgampwr rhagorol, yn focsiwr, yn gricedwr ac yn farchog. Byddai'n trefnu gornest focsio yn aml gyda'i gyfeillion. Wedi iddo gael hyfforddiant gan Tom Meadows yn ei Ganolfan Focsio yn Stryd Pitt, byddai'n bocsio yn aml ag A. Harry ac A. James. Mi wnaeth ymdrech arbennig i weld Jimmy Wilde, ac yr oedd Robert Jones yn bresennol pan gollodd y Pwysau Plu hwnnw o Gwm Rhondda yn ei ornest yn erbyn Pancho Villa yn 1923.

Yr oedd canran uchel o gleifion Robert Jones yn blant, ac yn ei ffordd ef o ddelio â'r anableddau hyn y gwelwyd ei fawredd gwirioneddol. Ond bu'n rhaid iddo wynebu difrawder a difaterwch. Yr oedd rhieni wedi mynd i greu fod triniaeth yn anobeithiol yn amlach na pheidio, a byddai y cleifion ar ôl triniaeth mewn ysbyty yn aml yn waeth wedi'r broses honno. Ond ar 24 Mehefin 1898, cymerwyd cam arloesol pan gytunodd pedwar o arloeswyr, sef Robert Jones, Charles Macalister, Mrs Ellen Sedgwick (Cartref Lerpwl i'r Anfeddyginiaethol) a Miss Gaskell, i lunio polisi ar gyfer y plant ag anableddau gyda'r bwriad o greu ysbyty arbenigol i drin y math hyn o gleifion.

Credai Robert Jones fod heulwen, awyr iach a chwarae yn hanfodol i blant. Cofiai'r dyddiau drwg gynt pan orweddi plantyn afluniaidd yn unig ac yn wrthrych plentyn mewn gwely coed a ffrâm heyrn troellog o

waith H. O. Thomas, wedi'u tynghedu i symud ar ffynbaglau. Cafodd Robert Jones ei feddiannu gan ddrychfeddwl diwygiad a dechreuodd weithredu'n ddiymdroi, a bu'n foddion i gael ysbyty newydd yn ardal y Wirral sef Ysbyty Brenhinol y Plant, Heswall. Gosodwyd carreg sylfaen yr ysbyty hwnnw ar 21 Ebrill, 1900.

Robert Jones ac Agnes Hunt

Maes o law, daeth i adnabod merch ifanc o'r enw Agnes Hunt, hithau'n perthyn i deulu cefnog o sir Amwythig. Yr oedd Agnes Hunt ei hun yn fethedig a phenderfynodd hi a'i ffrind agor cartref i blant methedig ym mhentref bychan Baschurch, yn ymyl Croesoswallt. Byddau hithau yn ei thro yn cyrchu ambell blentyn methedig i glinig agored Robert Jones yn Ysbyty y De, Lerpwl. Yr oedd ganddi rhyw gert amrwd, tebyg i hambwrdd mawr pobydd ar olwynion coets plentyn. Yn y cert hwnnw cludid nifer o blant methedig mewn sblintiau amrywiol.

Mae adroddiad am y cyfarfyddiad cyntaf ar gof a chadw gan Robert Jones.

'Fy mhrofiad cyntaf gyda Miss Hunt oedd hwnnw yn adran y cleifion allanol yn Ysbyty Brenhinol De Lerpwl. Gwelais foneddiges ar ffynbaglau yn gofalu am chwech o blant a gludid ar wagen trên. Ar ôl ymddiddan â hi ac heb wybod ei bod yn parhau yn fy ymyl, meddwn i wrth lawfeddyg yr Ysbyty. "Mae'r wraig hon yn hynod o ddeallus." Clywodd hithau fy sylw ac nid anghofiaf byth ei chwerthiniad iach a'i hymateb; "Gelli fentro dy fywyd, 'dwyti ti ddim yn bell o'th le."


Felly, mewn hir a hwyr, cododd Agnes Hunt a Robert Jones yr Ysbyty Esgyrn cyntaf yn y byd, a hynny mewn stabal ac ychydig o gytiau yng nghanol harddwch cefn gwlad Swydd Amwythig.

Ar ddechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf, cafodd Robert Jones ei hun yn bennaeth Meddygaeth Esgyrn y Fyddin, swydd a gyflawnodd ag anrhydedd, yn enwedig yn Ysbyty Alder Hey. O'r arbrawf bychan amser-rhyfel yn Alder Hey a'i 400 o welyau, datblygodd y cynllun meddygaeth esgryn a thyfodd i 30,000 o welyau i'r clwyfedigion ym Mhrydain. Cyfrinach llwyddiant Robert Jones oedd iddo drin y milwyr chwerw yn union fel plant brawychus – gan nad oedd cymaint â hynny o wahaniaeth rhyngddynt, mewn gwirionedd. Yn ystod y rhyfel defnyddiwyd Sblint Thomas, a ddyfeisiwyd gan H. O. Thomas, yn helaeth ar faes y gad a bu'r sblint hwn yn fodd i ostwng marwolaethau hyd at 60 y cant. Ar ddechrau'r rhyfel ni wyddai fawr o neb am y Sblint-Galiper Thomas gan y cyfyngwyd y defnydd ohoni i gylch Lerpwl yn bennaf. Yn hytrach defnyddid Sblint Liston (bu ef farw yn 1847) rhwng 1914 a 1915.

Ond ar ôl 1915, ac ar gymhelliad Robert Jones, defnyddiwyd Sblint Thomas, a thrwy ymdrechion ychydig o lawfeddygon daeth yn boblogaidd iawn. Yn 1917, anrhydeddwyd Robert Jones ag Urdd Marchog, a dwy flynedd yn ddiweddarach dyrchafwyd ef i Urdd Barwn.

Symud i Fyw i Gymru

Tua'r flwyddyn 1905 symudasai'r Dr Robert Jones a'i briod a'u dau blentyn i 11 Ffordd Belvedere, tŷ hynod o ddymunol a'r ardd yn wynebu ar Barc Princess. Roedd yn ganolfan ragorol iddo ef, ac yr oedd rhai fel Joseph Conrad a Syr Wilfred Grenfell ymhlith y rhai a fyddai'n gyson aros dan ei



Syr Robert Jones 1857–1933.

gronglwyd. Trefnodd, yn gynnar yn y daudddegau, i gael cartref yn y wlad yn 'Bodynfoel' ger Llanfechain ym Maldwyn, llecyn tua phymtheg milltir oddi wrth Ysbyty Esgyrn, Croesoswallt, ac heb fod yn bell iawn o Lerpwl.

Yn Bodynfoel, rhwng 1924 a 1930, y cyhoeddodd *Cylchgrawn yr Anabl*. Credai Robert Jones yn gryf mewn dysgu ac mewn trosglwyddo syniadau i eraill. Daliodd yn y tresi hyd dydd ei farw yn Bodynfoel ar 14 Ionawr 1933. Dygwyd ei lwch i'w osod i orffwys yng Nghapel Gwasanaeth yr Eglwys Gadeiriol, Lerpwl ar 18 Ionawr 1933. 'Mae'i fywyd i mi,' meddai y Dr. David, Esgob Lerpwl, 'yn ddamag sy'n adlewyrchu, megis o ddrych, egni creadigol ac anturus Ysbryd Duw Ei Hun, y gallu sydd yn gweithio ynom ni.' Pan roddwyd y llwch yng Nghapel y Gwasanaeth, ar y diwedd, canwyd emyn hwyrol a gyfansoddwyd gan un o'r plant anafus, sy'n dechrau fel hyn:

*'I feddygon anafusion,
Dyro orffwys, lŵr, a'i rin,
A boed bendith plant yn foddion
Iŵr i gau'r amrantau blin.'*

Nid Robert Jones oedd yr unig Gymro i arbenigo mewn meddygaeth esgryn yn Lerpwl. Bu amryw o rai eraill, megis Yr Athro Thelwell Thomas (1865–1927) – llawfeddyg esgryn ymgynghorol, darlithydd yn Adran Feddygol Prifysgol Lerpwl a phrif ymgynghorwr Ysbyty Brenhinol Dinas Lerpwl, oedd yn fab i John Thomas, y ffotograffydd enwog; E. Goronwy Thomas, Llywydd Cymdeithas Feddygol Lerpwl hyd ei ymddeoliad yn 1969; ei fab, Hugh Thomas yn maes meddygaeth esgryn ar lannau'r Wirral hyd ei ymddeoliad yn 1996 a'r Athro Robert Owen, y llawfeddyg esgryn yn Ysbyty Brenhinol Lerpwl ac Ysbyty Alder Hey.

Ceir gweithdai yn Toxteth er cof am Robert Jones ac ar y pedwerydd llawr yn Ysbyty Brenhinol Lerpwl ceir cofeb iddo a symudwyd o Ysbyty'r De.

Oherwydd ymdrechion Cymry Lerpwl ym maes meddygaeth esgryn Cymreig, mae Lerpwl, yn yr ugeinfed ganrif, bellach wedi dod yn ganolfan meddygaeth esgryn gydnabyddedig.